**Ymateb Pwyllgor Cynghori Cymru i'r Ymgynghoriad:**

**Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr**

Mewn ymateb i'r papur ymgynghori ar **Adnewyddu Trwydded Channel 4: Cwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr,** mae'r pwyllgor yn rhannu pryderon Ofcom mewn perthynas â'r heriau digynsail sy'n wynebu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus wrth iddyn nhw gystadlu i ddatblygu arloesedd digidol a strategaethau datblygu busnes newydd mewn ymateb i newidiadau mawr mewn arferion gwylio teledu a'r cyflenwad creu cynnwys. Mae'r pwyllgor hefyd yn cydnabod yr heriau unigryw sy'n wynebu Channel 4 fel cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei ariannu'n fasnachol ac sydd ar yr un pryd â chylch gwaith i gymryd risgiau creadigol. Mae Pwyllgor Cynghori Cymru o'r farn bod Channel 4 ffyniannus yn hanfodol i gynnal eco-system diwydiannau creadigol y DU ac mae'r pwyllgor yn llwyr gefnogi ei strategaeth model *Fast Forward*, sy'n ariannu cyhoeddwyr ac sydd â'r nod o "gyflymu trawsnewid Channel 4 i fod yn ffrydiwr gwasanaeth cyhoeddus hyblyg, digidol yn gyntaf erbyn 2030"[1].

Fodd bynnag, mae Pwyllgor Cynghori Cymru yn credu na ddylid aberthu ymrwymiad datganedig Channel 4 i "gynrychioli amrywiaeth o safbwyntiau o bob rhan o'r DU" [2] na'r strategaeth "4 all the UK"[i] [3] er mwyn dilyn llwybr arfaethedig y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus tuag at lwyddiant yn y dyfodol. Byddai Cymru heb Channel 4 yn sicr o fod yn dlotach ond felly hefyd fyddai Channel 4 heb Gymru.

Isod mae'r pwyllgor yn amlinellu ei ymateb i ymgynghoriad Ofcom ar gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr Channel 4, gan dynnu sylw at yr hyn y mae'r pwyllgor yn credu sy'n newidiadau angenrheidiol i delerau arfaethedig y drwydded a rhoi manylion ffeithiau i gefnogi'r safbwynt hwn. Mae'r pwyllgor yn cwestiynu dilysrwydd y tybiaethau a wnaed yn y papur ymgynghori ynglŷn â chostau cynhyrchu uwch a lefelau is o gapasiti a sgiliau digidol yng Nghymru ac mae'n gofyn am gyfle i archwilio unrhyw dystiolaeth sy'n bodoli i gefnogi'r sefyllfa hon. Yn olaf, mae'r pwyllgor yn gofyn am sicrwydd y bydd comisiynau yn y dyfodol sy'n rhan o gwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr Channel 4 yn cael eu dyfarnu a'u darparu gan gwmnïau annibynnol cymwys yn y Gwledydd ac nid gan gynyrchiadau mewnol Channel 4.

**Yr achos dros gwotâu uwch**

Mae poblogaeth Cymru yn cyfrif am ychydig o dan 5% o gyfanswm y DU ac mae nifer y bobl sy'n byw yng Nghymru, yr Alban ac Iwerddon yn cynrychioli bron i 16% o boblogaeth y DU. Ar sail yr egwyddor syml o gynrychioli'r boblogaeth, mae Pwyllgor Cynghori Cymru yn dadlau nad yw'r cynnydd arfaethedig mewn cwotâu Gwnaed y tu allan i Loegr i 12% erbyn 2030 yn ddigon uchelgeisiol na chynrychioladol a'i fod yn fygythiad i ymrwymiad penodol Channel 4 i gyflawni ar gyfer y DU gyfan.

Ar ben hynny, yn ôl adroddiad Cyfryngau'r Genedl Cymru Ofcom[4], yn 2023 Channel 4 oedd â'r gyfran cynulleidfa isaf yng Nghymru o'r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (3.5% yng Nghymru o'i gymharu â 5% yn Lloegr). Fel % o holl raglenni Channel 4, gostyngodd cynyrchiadau yng Nghymru yn 2023 o ran gwariant (i lawr o 4.1% i 3.4% o un flwyddyn i'r llall) ac oriau (i lawr o

[1] https://assets-corporate.channel4.com/_flysystem/s3/2024-01/Fast%20Forward%20-%20Channel%204%20strategy%20summary.pdf
[2] https://www.channel4.com/corporate/about-4/4-all-uk-working-across-uk
[3] https://www.channel4.com/corporate/about-4/4-all-uk-working-across-uk
[4] https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/research-and-data/multi-sector/media-nations/2024/media-nations-2024-wales.pdf?v=373800

5.4% i 3.8%). Ar hyn o bryd, mae nifer yr oriau o gynnwys sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru ar gyfer Channel 4 ar ei lefel isaf ers 2017.

Mewn astudiaethau ansoddol, er bod 4 o bob 5 person yng Nghymru yn dweud eu bod yn fodlon â Channel 4, mae llawer llai yn credu bod Channel 4 yn darparu rhaglenni sy'n "rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am fy ardal" (dim ond 25% o'i gymharu â chyfartaledd o 55% ar draws yr holl gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus). Felly, mae'r data meintiol ac ansoddol yn awgrymu bod gan Channel 4 waith i'w wneud i sicrhau bod Cymru'n cael ei gwasanaethu'n well.

Yng ngoleuni'r ffeithiau hyn, mae'r pwyllgor yn cynnig bod Channel 4 yn ymrwymo i gwota Gwnaed y tu allan i Loegr o 16% erbyn 2030 ac mae'n cyflwyno strategaeth datblygu sgiliau a chomisiynu cynnwys sydd wedi'i lunio i gefnogi cynnydd % cynyddol, cynaliadwy mewn lefelau cynhyrchu cynnwys o wledydd y DU dros gyfnod o 5 mlynedd (2025 – 2030). Dylai cynnydd ar y strategaeth gael ei adrodd a'i gyhoeddi bob blwyddyn a chynnwys manylion am sut mae Channel 4 wedi cyflawni ei amcanion yn y flwyddyn flaenorol a sut mae'n bwriadu cyflawni ei amcanion yn y flwyddyn ganlynol, gan addasu ei ddull gweithredu yn ôl yr angen yng ngoleuni canlyniadau'r blynyddoedd blaenorol. Dylai'r strategaeth gael ei dylunio i gyflawni targed cwota o 12% erbyn 2027 a tharged cwota o 16% erbyn 2030.

Amcan strategol arall, sy'n benodol i Gymru, fyddai cynyddu cynhyrchu a gwylio cynnwys 'wedi'i wneud yng Nghymru' ac 'am Gymru' gyda'r nod o gynyddu cyfran gwylio Channel 4 yng Nghymru i lefelau sydd yr un fath neu'n uwch na'r cyfartaleddau darlledu gwasanaeth cyhoeddus erbyn 2030.

Byddai'n bleser gan Bwyllgor Cynghori Cymru ymgysylltu â Channel 4 a'i helpu i gyflawni'r strategaeth hon yng Nghymru. Mae'r pwyllgor yn cynnig cysylltu â rhanddeiliaid yn y diwydiant a'r llywodraeth i sefydlu panel o arbenigwyr y byddai eu gwybodaeth am dirwedd cyfryngau Cymru yn rhoi gwybodaeth werthfawr i Channel 4 a fyddai'n helpu i lywio ei strategaeth ac ar yr un pryd, yn darparu cyfleoedd i Channel 4 rannu unrhyw heriau o ran cyflawni â'i rhanddeiliaid yng Nghymru. Yr uchelgais fyddai meithrin diwylliant cydweithredol sydd o fudd i bawb.

**Oriau a Gwariant yn erbyn Portreadu a Chynrychioli**

Nid yw'n dilyn bod cynnwys sydd wedi'i wneud yng Nghymru neu sy'n defnyddio talent o Gymru o reidrwydd yn siarad am Gymru a'r profiad Cymreig. Mae astudiaeth fer o gofrestr o deitlau rhaglenni Gwneud y tu allan i Lundain Ofcom 2023 [5]yn datgelu, o'r 17 o deitlau rhaglenni (tua 89 pennod i gyd) a oedd yn gymwys fel cynyrchiadau Cymreig yn 2023, mai dim ond un rhaglen ddogfen un awr oedd yn portreadu prif gymeriad a oedd yn Gymreig a/neu oedd yn gweld y byd o safbwynt Cymreig. Fodd bynnag, roedd y rhestr o deitlau rhaglenni cymwys yn cynnwys cyfres ddogfen chwe rhan ar un o ysbytai Newcastle. Ar y sail hon, mae'r pwyllgor yn dadlau bod lleisiau a safbwyntiau Cymreig yn nodedig yn eu habsenoldeb o gynnwys Channel 4. Mae'r methiant hwn i adlewyrchu realiti a phrofiadau bywyd yng Nghymru yn fygythiad nid yn unig i'r ffordd y mae Cymru'n gweld ei hun ond hefyd i'r ffordd y mae gweddill y DU ac, yn wir, y byd, yn gweld Cymru.

Felly, mae'r pwyllgor yn cynnig, wrth adrodd ar amcanion cyflenwi cwotâu yn y dyfodol, bod Channel 4 yn gwahaniaethu rhwng gwariant ac oriau o'i gymharu â phortreadu a chynrychioli. Dylid casglu, dadansoddi ac adrodd ar ddata portreadu a chynrychioli mewn perthynas â'r holl

[5] made-outside-london-programme-titles-register-2023.pdf

gynnwys Gwnaed y tu allan i Loegr yn annibynnol, gan ddefnyddio dulliau meintiol ac ansoddol ar gyfer cwestiynu'r naratif.

Ar ben hynny, er mwyn sicrhau bod bywydau a safbwyntiau gwylwyr ar draws y DU yn cael eu portreadu mewn ffordd gymesur a dilys, mae'r pwyllgor yn argymell bod Channel 4 yn ymrwymo i gynyddu nifer ei gomisiynwyr sy'n byw ac yn gweithio yn y gwledydd, gan sicrhau bod yr Alban, Iwerddon a Chymru yn cael eu cynrychioli'n deg.

**Sgiliau a Chapasiti'r Sector**

Mae papur ymgynghori Ofcom ar adnewyddu trwydded Channel 4 yn[6] datgan bod Channel 4 yn dweud fod costau comisiynu rhaglenni o'r gwledydd yn uwch na chostau comisiynu o Lundain. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y ffigurau sy'n honni eu bod yn dangos y sefyllfa hon wedi cael eu tynnu o'r papur ymgynghori ac felly nid ydynt nhw ar gael i Bwyllgor Cynghori Cymru graffu arnyn nhw, yn benodol yng nghyswllt Cymru.

Mae Channel 4 hefyd yn honni nad yw'r lefelau presennol o gapasiti a sgiliau digidol yng Nghymru yn ddigon datblygedig i ddiwallu ei anghenion o ran strategaeth ddigidol, gan greu bygythiad posibl i ddyfodol Channel 4. Mae'r pwyllgor yn gwrthwynebu'r honiad hwn.

Mae nifer o ffynonellau tystiolaeth yn tystio i gryfder a chapasiti'r sector yng Nghymru i ddarparu cynnwys digidol ar raddfa fawr. Ar gyfer S4C yn unig, mae cwmnïau cynhyrchu annibynnol yng Nghymru yn cynhyrchu dros 2200 o oriau gwreiddiol o gynnwys aml-lwyfan bob blwyddyn. Yn 2023-24, dywedodd S4C fod cynnydd o 31% wedi bod yn nifer yr oriau sy'n cael eu gwylio ar-alw a chynnydd o 53% yn nifer yr oriau sy'n cael eu gwylio ar YouTube[7] - prawf bod y sector yng Nghymru yn dod yn fwyfwy medrus o ran darparu cynnwys digidol yn gyntaf gan alluogi S4C i dyfu a chynnal ei gyfran o gynulleidfaoedd ar draws gwasanaethau uniongyrchol i ddefnyddwyr yn ogystal â llwyfannau teledu daearol digidol.

Ar ben hynny, mae buddsoddiad UKRI drwy ei Raglen Clwstwr Creadigol ac wedyn drwy ei raglen Cryfder mewn Lleoedd yn Media Cymru[8] yn darparu tystiolaeth gadarn o alluoedd a photensial arloesi'r sector sgrîn yn rhanbarth Prifddinas Caerdydd. Mae Channel 4 eisoes yn ymwneud â Media Cymru mewn prosiect i wella amrywiaeth y gweithlu teledu ac mae rhaglenni gweithredol eraill yn cynnwys hyfforddiant sgiliau digidol, arloesi cynnwys, buddsoddi mewn ffilmiau rhyngweithiol, technoleg ymgolli, a datblygu atebion i heriau cynaliadwyedd ym maes cynhyrchu.

Mae'r pwyllgor yn argymell, er mwyn cryfhau a diogelu capasiti'r sector cynhyrchu yng Nghymru i ddarparu cynnwys sy'n cyflawni amcanion ei strategaeth *Fast Forward*, y dylai Channel 4 lunio strategaeth ar gyfer datblygu sgiliau digidol a chynyddu capasiti ar gyfer cynhyrchu cynnwys digidol yn y wlad. Dylid adolygu hyn yn flynyddol a dylai gynnwys cerrig milltir cyhoeddus a llwybr critigol clir. Dylai Channel 4 geisio gweithio gyda chwmnïau cynhyrchu a rhanddeiliaid sgiliau a hyfforddiant digidol eraill yng Nghymru i gyflawni'r amcanion strategol, gan ddarparu

---

[6] https://www.ofcom.org.uk/siteassets/resources/documents/consultations/category-3-4-weeks/reconsultation-channel-4-licence-renewal/associated-documents/c4-made-outside-england-condoc2.pdf?v=370743

[7] https://adroddiad.s4c.cymru/wp-content/uploads/2024/07/S4C_Report-and-Accounts-2023-24_Welsh.pdf

[8] Media Cymru - Arloesi yn y cyfryngau yng Nghymru - Ymchwil, cyllid a hyfforddiant

mesur clir mae modd ei ddefnyddio i werthuso ac adrodd yn feirniadol ar ymrwymiad Channel 4 i Gymru dros nifer o flynyddoedd.

**I grynhoi, mae Pwyllgor Cynghori Cymru yn cynnig:**

1. Bod Channel 4 yn ymrwymo i gwota Gwnaed y tu allan i Loegr o 16% erbyn 2030, gan gyhoeddi strategaeth sy'n cael ei hadolygu'n flynyddol ac sy'n atebol i'r cyhoedd ar gyfer twf cynnwys o'r gwledydd sydd wedi'i chynllunio i gyflawni targed cwota o 12% erbyn 2027 a tharged cwota o 16% erbyn 2030.

2. Bod Channel 4 yn ymrwymo i gynyddu cynhyrchu a gwylio cynnwys 'wedi'i wneud yng Nghymru' ac 'am Gymru' gyda'r nod o gynyddu cyfran gwylio Channel 4 yng Nghymru i lefelau sydd yr un fath neu'n uwch na'r cyfartaleddau darlledu gwasanaeth cyhoeddus erbyn 2030.

3. Bod Channel 4 yn gweithio i sicrhau nad yw mesurau gwariant ac oriau cynhyrchu yn cymysgu â phortreadu a chynrychioli. Dylid casglu a dadansoddi data portreadu a chynrychioli mewn perthynas â'r holl gynnwys Gwnaed y tu allan i Loegr yn annibynnol o adrodd ar ddata oriau a gwariant, gan ddefnyddio dulliau meintiol ac ansoddol ar gyfer cwestiynu'r naratif.

4. Bod Channel 4 yn ymrwymo i gynyddu nifer ei gomisiynwyr sy'n byw ac yn gweithio yn y gwledydd, gan sicrhau bod Cymru, yr Alban, ac Iwerddon yn cael eu cynrychioli'n deg.

5. Bod Channel 4 yn paratoi strategaeth fesuradwy ar gyfer datblygu sgiliau digidol a chynyddu capasiti ar gyfer cynhyrchu cynnwys digidol yng Nghymru, gan gynnwys cerrig milltir cyhoeddus a llwybr critigol clir. Dylai hyn gynnwys gweithio gyda chwmnïau cynhyrchu annibynnol lleol a rhanddeiliaid sgiliau a hyfforddiant digidol eraill i gyflawni'r amcanion strategol, gan ddarparu mesur clir mae modd ei ddefnyddio i werthuso ac adrodd yn feirniadol ar ymrwymiad Channel 4 i Gymru dros nifer o flynyddoedd.

**Mae Pwyllgor Cynghori Cymru'n herio'r tybiaethau canlynol:**

1. Nid yw'r sector cynhyrchu yng Nghymru yn ddigon datblygedig, naill ai o ran graddfa neu sgiliau i gyflawni amcanion strategaeth ddigidol *Fast Forward* Channel 4 ac mae'n gofyn am gyfle i archwilio unrhyw dystiolaeth sydd i'w weld yn cefnogi'r dybiaeth hon.

2. Mae cost comisiynu rhaglenni o Gymru yn uwch na chostau comisiynu yn Llundain ac mae'n gofyn am gyfle i archwilio unrhyw dystiolaeth gefnogol (sydd wedi'i dynnu'n ôl ar hyn o bryd) sydd i'w weld yn cefnogi'r dybiaeth hon.

**Mae Pwyllgor Cynghori Cymru yn gofyn am sicrwydd ynglŷn â'r canlynol**

1. Bydd y cwota Gwnaed y tu allan i Loegr yn cael ei ddarparu gan gwmnïau cynhyrchu annibynnol yn y gwledydd perthnasol ac yn unol â'r meini prawf presennol ar gyfer cwmnïau annibynnol cymwys.

2. Nid yw Channel 4 yn bwriadu sefydlu canolfannau cynhyrchu mewnol yn y gwledydd er mwyn cynhyrchu cynnwys sy'n gymwys ar gyfer cyflawni'r cwota.